Penodi i
Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda
(Cyngor leol Sir Benfro)

Enwebiadau o'r Trydydd Sector

- **Ydych chi'n aelod o staff, bwrdd, gofalwr neu wirfoddol o sefydliad y trydydd (gwirfoddol) sector yn Sir Benfro?**

- **Hoffech chi wneud gwahaniaeth cadarnhaol I wasanaethau iechyd a bywydau pobl?**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am benodi aelodau gwirfoddol i Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda (CIC). CICs corff gwarchod annibynnol y cyhoedd yng Ngwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru yw'r Cynghorau Iechyd Cymuned. Maent yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd ac yn chwarae rhan bwysig o ran dylanwadu ar y ffyrdd o gynllunio, cyflenwi a gwella gwasanaethau iechyd.

Gwirfoddolwyr yw Aelodau'r Cynghorau Iechyd Cymuned a'u swyddogaeth yw cadw eu llygaid a'u clustiau ar agor er budd cleifion a'r cyhoedd, gwrando ar eu pryderon a gweithio gyda'r gwasanaeth iechyd i wella ansawdd gofal i gleifion.

Mi fydd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda yn cael eu sefydlu o 1 Ebrill 2010 ymlaen gyda'r Pwyllgorau Lleol isod:

- Cyngor leol Sir Benfro
- Cyngor leol Sir Gâr
- Cyngor leol Ceredigion

Bydd Pwyllgorau Lleol gyda tair le i aelodau o'r Trydydd Sector, enwebwyd gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol priodol. Mae'r CIC yn chwilio am bobl o bob cefndir – y gofyniad pwysicaf yw bod gennych ddiddordeb gwirioneddol mewn gwella gwasanaethau iechyd i'ch cymuned. Byddai'r sgiliau canlynol yn ddefnyddiol: diddordeb mewn materion iechyd lleol ac ymwybyddiaeth ohonynt; y gallu i weithio mewn tîm â phobl o gefndiroedd gwahanol; a'r gallu i wrando ar eraill a chyfnewid barn.

Disgwylir i'r aelodau fod ar gael i weithio rhwng 3 a 5 diwrnod y mis.
Ni fydd yr aelodau yn cael eu talu ond bydd modd hawlio treuliau. Nodwch, mae'n anghenrheidiol fod eich sefydliad yn dangos cysylltiad glir gyda'r Pwyllgor Lleol priodol.
Cysylltwch a: Uwch Swyddog Gweinyddol – 01437 769422 neu ar gais oddi wrth: senioradministrator@pavs.org.uk
Byddwch yn derbyn pecyn a ffurflen gais er mwyn gwneud gais am enwebiad

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: Dydd Gwener 19 Mawrth 2010 am hanner dydd.